



Asiantaeth y
Swyddfa Brisió

Safonau cyflwyno adroddiadau awdurdodau bilio (2022)



Rhagarweiniad

Mae'r ddogfen hon yn diweddarau 'Safonau Cyflwyno Adroddiadau Awdurdodau Bilio (2017)' Asiantaeth y Swyddfa Brisió drwy nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i Awdurdodau Bilio (BAs) ei chynnwys gydag adroddiad.

Nod y Safonau Cyflwyno yw ein galluogi i weithio'n fwy effeithiol gyda'n gilydd. Mae'r Safonau hefyd yn cyd-fynd â pholisi 'dweud wrthym unwaith' Llywodraeth y DU, gan fydd trethdalwyr ond yn rhoi gwybodaeth unwaith.

Ein gobaith yw y bydd y ddogfen hon yn helpu unrhyw un sy'n gysylltiedig â chyflwyno Adroddiadau Awdurdodau Bilio (BARs), neu sy'n casglu gwybodaeth er mwyn eu cyflwyno.

Gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd

Dylech wneud y canlynol:

- gwirio bod yr adroddiadau rydych yn eu hanfon atom yn bodloni'r safonau sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen
- edrych ar eich atodlenni o adroddiadau sydd heb eu gweithredu er mwyn nodi unrhyw achosion y mae angen i chi eu hailgyflwyno, a diweddarau'ch cofnodion ynghylch adroddiadau sydd heb eu cyflwyno. Rydym eisiau osgoi gwastraffu adnoddau pawb wrth chwilio am ddiweddariadau ar achosion sydd wedi'u clirio
- codi unrhyw bryderon ynghylch adroddiad sydd heb ei weithredu, ar unwaith. Bydd hyn yn ein galluogi i ymchwilio a gweld pa atebion y gallwn eu darparu.

Newidiadau yn y dyfodol

Mae rhaglen Trawsnewid Systemau Busnes (BST) ar y gweill yn yr Asiantaeth. Mae newidiadau arfaethedig yn cynnwys Porth Awdurdodau Lleol Newydd a fydd yn disodli BATRANs a hefyd yn rhoi'r cyfleuster i uwchlwytho BARs sengl a swmp yn electronig.

Mae profi a chyflwyno'r gwasanaethau newydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2023. Bydd gwasanaethau presennol yn parhau i fod ar gael am gyfnod, eto i'w benderfynu, ar ôl i'r gwasanaethau newydd fynd yn fyw. Mae diweddariadau ar y gwaith hwn wedi'u cynnwys yng Nghylchlythyrau'r Awdurdodau Lleol ac mae gweithgor o dros 25 Awdurdod Lleol wedi'i sefydlu.

Er mwyn gwella effeithlonrwydd ac ansawdd rydym am symud i ffwrdd o gofnodi data â llaw, er enghraifft copïo gwybodaeth o ffeil pdf, neu restr ar ffurf gopi caled a anfonir drwy'r post. Os ydych yn defnyddio ffeiliau pdf neu ddull â llaw ar hyn o bryd i gyflwyno adroddiadau, siaradwch â'ch Rheolwr Cysylltiadau ag Awdurdodau Lleol ynghylch sut y bydd y newidiadau hyn yn y dyfodol yn effeithio arnoch, a bydd yn fwy na pharod i drafod yr opsiynau â chi.

Byrfoddau cymeradwy – Er mwyn helpu i gyfyngu ar nifer y cymeriadau yn yr adran sylwadau, gallwch ddefnyddio'r byrfoddau canlynol:

Mae rhai Awdurdodau Bilio wedi rhoi gwybod i ni fod y cyfyngiad ar nifer y cymeriadau y gellir eu defnyddio yn golygu na allant roi'r holl wybodaeth berthnasol. Gall defnyddio'r byrfoddau cymeradwy canlynol helpu, o bosibl.

- **EST** – Estyniad
- **DDiR** – Yn weithredol o (Dyddiad dod i rym)
- **Medd** – Meddiannydd
- **Perch** – Perchennog
- **Ffôn** – Rhif Ffôn
- **Cfn** – Cyfuniad
- **LLG** – llawr gwaelod
- **LL1** – llawr cyntaf
- **LL2** – ail lawr

Does dim angen defnyddio brawddegau llawn, atalnodau na mân gwrteisi megis 'os gwelwch yn dda'.

Er enghraifft, mewn achos Treth Gyngor, yn hytrach na:

Rhannwch 100 Stryd Fawr, Unrhyw Dref, A12 3BC yn fflat llawr gwaelod, 10 Stryd Fawr, a fflat llawr cyntaf, 100 Stryd Fawr, yn weithredol o 01 Ebrill 2019 ymlaen. Enw'r perchennog yw Mr J Smith. Rhif ffôn y perchennog yw 01234 567890. Y cyfeirnodau yw 0011223344 ar gyfer y llawr gwaelod a 0011223345 ar gyfer y llawr cyntaf. Diolch

Gallech ychwanegu:

Rhannwch 100 Stryd Fawr Unrhyw Dref A12 3BC yn Fflat LLG 100 Stryd Fawr Cyf 0011223344 a fflat LL1 100 Stryd Fawr Cyf 0011223345 Perch – J Smith Ffôn 01234 567890

Er enghraifft, mewn achos Ardrethu Annomestig, yn hytrach na:

Byddwch cystal ag ailasesu'r parc carafannau yn Y Traeth, Unrhyw Dref, A12 3BC gan nad yw Carafán 23L (cyfeirnod eiddo 99887766 ar gyfer Treth Gyngor) yn cael ei meddiannu at ddibenion domestig mwyach. Erbyn hyn mae'n rhan o'r prif safle, ac mae wedi bod felly o 01 Ebrill 2017 ymlaen. Perchennog y safle yw Mr P Jones, ei rif ffôn yw 01234 567890

Gallech ychwanegu:

Tynnwch Garafán 23L cyf 99887766 o'r Dreth Gyngor a'i hychwanegu at Y Traeth cyf 99887755 fel Ardrethu Annomestig. Perch – Mr Jones Ffôn 01234 567890

Gweler Atodiad 6 am restr o gymeriadau cymeradwy ar gyfer adroddiadau ebar.

Yr wybodaeth sy'n Ofynnol ar Gyflwyniad BAR

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu'r wybodaeth sy'n ofynnol ac yn egluro pam y mae ei hangen arnom.

Gwybodaeth sydd ei hangen	Pam fod ei hangen
Rhif Adroddiad yr Awdurdod Bilio (BA)	Mae hyn yn ein galluogi i groesgyfeirio ac olrhain adroddiadau
Cyfeirnod Awdurdod Bilio (BA)	<p>Mae'r cyfeirnod unigryw yn sicrhau ein bod yn sôn am yr un eiddo. Ni allwn glirio unrhyw adroddiadau heb Cyfeirnod Awdurdod Bilio.</p> <p>Mae'n rhaid i chi roi cyfeirnodau Awdurdod Bilio i ni ar gyfer asesiadau sy'n bodoli eisoes neu rai arfaethedig newydd.</p> <p>Rhowch gyfeirnodau ar gyfer asesiadau sydd wedi'u creu o ganlyniad i rannu neu gyfuno eiddo presennol yn y golofn sylwadau, hyd yn oed os nad yw un cyfeirnod yn newid.</p> <p>Awgrym – os oes gennych 20 neu fwy o gyfeirnodau y mae angen eu newid, nid oes angen i chi gyflwyno adroddiadau unigol. Gallwch anfon taenlen at baenquiries@voa.gov.uk. Dylech gynnwys diweddariadau ynghylch swmp-gyfeirnodau a'ch cod Awdurdod Bilio yn y llinell destun</p>
Cyfeiriad yr eiddo	<p>Dylai adroddiadau ar gyfer eiddo presennol gynnwys y cyfeiriad fel y mae'n ymddangos ar y rhestr ar hyn o bryd.</p> <p>O ran adroddiadau ar gyfer rhaniadau neu gyfuniadau, dylai manylion eiddo eraill sy'n gysylltiedig gael eu cynnwys yn y golofn sylwadau.</p> <p>Yn ddelfrydol, dylai Ceidwad Cyfeiriadau'r Awdurdod Lleol gytuno ar gyfeiriadau ar gyfer eiddo newydd, a hynny er mwyn sicrhau bod y cyfeiriad yn gywir ac nad oes angen newid dilynol.</p>
Cod post	Mae cod post yn ein galluogi i gael manylion yr eiddo yn hawdd. Ni allwn gofnodi adroddiadau ar ein cronfa ddata heb god post llawn sydd wedi'i fformatio'n gywir.

Gwybodaeth sydd ei hangen	Pam fod ei hangen
<p>Disgrifiad</p> <p>(Ddim yn gymwys ar gyfer Treth Gyngor)</p>	<p>Rhowch y disgrifiad fel y'i dangosir yn y Rhestr Trethu ar gyfer asesiadau sydd ohoni, neu ddisgrifiad posibl ar gyfer asesiadau newydd.</p> <p>Bydd hyn yn ein helpu i nodi unrhyw gysylltiad arbenigol sydd ei angen, a'r gobaith yw y bydd yn cyflymu'r broses o glirio'r adroddiad i chi.</p> <p>Mae rhestr lawn o ddisgrifiadau ar gael ar safle Trosglwyddo'r Asiantaethau Bilio o dan y 'Tech Circs', sef atodiadau i Adran 3.</p>
<p>Dyddiad y newid</p>	<p>Hwn yw'r dyddiad y daw'r newid i rym. Byddwn yn defnyddio'r dyddiad rydych yn ei awgrymu, oni bai bod trethdalwr yn rhoi tystiolaeth ategol ar gyfer dyddiad arall, neu pe bai'r rheoliadau o ran y dyddiad dod i rym yn golygu bod rhaid i ni bennu dyddiad gwahanol.</p> <p>Pan fo hysbysiad cwblhau wedi'i gyflwyno, dyma fydd y dyddiad yr ardystiwyd bod yr eiddo wedi'i gwblhau. Hwn hefyd fydd y dyddiad dod i rym.</p> <p>Ar ôl cyflwyno adroddiad, anfonwch gopi o'r hysbysiad cwblhau atom yn barsubmissionstandards@voa.gov.uk cyn pen 24 awr. Defnyddiwch Ardrethu Annomestig/hysbysiad cwblhau/rhif adroddiad/cyfeiriad llawn a chod post yn y llinell pwnc a darparwch gadarnhad bod yr hysbysiad cwblhau wedi'i gyflwyno gan swyddog a awdurdodwyd yn briodol ac yn gyfreithiol.</p> <p>Gall swyddogaeth y gwasanaeth gael ei dirprwyo'n briodol i swyddogion yr Asiantaethau Bilio eu hunain, ond ni all Asiantau Bilio ddirprwyo'r gwaith o ystyried cyflwyno hysbysiadau cwblhau i gontractwyr preifat.</p> <p>Peidiwch ag anfon unrhyw gopiau atom cyn i'r adroddiad gael ei wneud. Ni allwn dderbyn dyddiadau dod i rym sydd yn y dyfodol, na dyddiadau dod i rym sydd 'i'w cadarnhau'.</p> <p>Ar gyfer NDR - Os yw'r dyddiad dod i rym cyn 01-EBR-2017, defnyddiwch 01-EBR-2017 ac ychwanegwch yn y golofn sylwadau beth fyddai'r dyddiad dod i rym pe na bai cyfyngiadau.</p> <p>Bydd hyn yn ein galluogi i nodi'r dystysgrif drosiannol briodol, pe bai ei hangen.</p>

Gwybodaeth sydd ei hangen	Pam fod ei hangen
<p>Rheswm, mewn cod, dros yr adroddiad</p>	<p>I gael rhestr o resymau ar gyfer codau adroddiadau, gweler Atodiad 1 – Treth Gyngor ac Atodiad 2 - Ardrethu Annomestig</p> <p>Mae defnyddio'r cod cywir yn golygu y gallwn ddyrannu adroddiadau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu trin yn effeithlon ac yn effeithiol gan y bobl gywir.</p> <p>Dylech ond defnyddio CR09 ar gyfer cyfeirnod Treth Gyngor a newidiadau i ddyddiadau dod i rym.</p> <p>Os nad yw'ch meddalwedd yn caniatáu i chi ddefnyddio CR05 ar gyfer rhaniadau/cyfuniadau o ran Treth Gyngor, defnyddiwch CR03. Ychwanegwch o dan sylwadau, "methu defnyddio CR05"</p> <p>Dylech ond defnyddio'r codau sydd wedi'u cynnwys yn ein hatodiadau. Bydd unrhyw adroddiadau a wneir gan ddefnyddio codau eraill, megis codau mewnol y Swyddfa Brisió, yn cael eu gwrthod yn awtomatig.</p>
<p>Gwerth Trethiannol neu fand Treth Gyngor ar gyfer asesiadau presennol</p>	<p>Y Gwerth Trethiannol neu'r band Treth Gyngor a ddangosir ar y Rhestr ar hyn o bryd.</p> <p>Gadewch hwn yn wag ar gyfer eiddo newydd.</p> <p>Mae'r Gwerth Trethiannol neu'r band Treth Gyngor yn ein galluogi i wirio bod adroddiad wedi'i gofrestru yn erbyn yr asesiad cywir, yn enwedig pan fo newidiadau blaenorol i'r asesiad wedi digwydd.</p>
<p>Cyfeirnod cynllunio neu Gyfeirnod Porth Cynllunio</p>	<p>Rhowch gyfeirnod porth cynllunio neu gynllun pensaer.</p> <p>Mae hyn yn ein helpu i benderfynu a oes angen archwiliad.</p> <p>Os nad oes cynllun ar gael, dylech gynnwys un o'r talfyriadau canlynol o dan sylwadau yn lle ysgrifennu'n llawn pam nad ydych wedi cyflwyno cyfeirnod cynllunio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • BWPP - wedi'i adeiladu heb ganiatâd cynllunio • PPNA - nid yw cynllunio yn berthnasol • PPNR - does dim angen caniatâd cynllunio • PD - datblygiad a ganiateir – does dim angen caniatâd cynllunio arno • NPAS - does dim cais cynllunio wedi'i gyflwyno <p>Os nad oes cynllun ar gael, ac os na ddefnyddiwyd un o'r ymadroddion hyn, ni fyddwn yn gweithredu ar eich adroddiad.</p>

Gwybodaeth sydd ei hangen	Pam fod ei hangen
Sylwadau 'Rheswm dros ddiwyddiad'	<p>Rhowch sylwadau clir i ni er mwyn dangos pa newidiadau sydd eu hangen.</p> <p>Ni fyddwn yn cymryd unrhyw gamau os nad ydych yn sicr o'r newid sydd ei angen, os yw'r camau gweithredu yn aneglur/amhenodol neu os bydd y newid yn y dyfodol. Dyma rai enghreifftiau – estyniad newydd posibl, gallai busnes newydd fod yn rhedeg o'r cyfeiriad hwn, mae disgwyl i'r eiddo hwn gael ei rannu'n 3 rhan – arhoswch hyd nes bod un rhan wedi'i rhannu cyn cyflwyno adroddiad.</p> <p>Anfonwch unrhyw wybodaeth ategol at barsubmissionstandards@voa.gov.uk</p> <p>Anfonwch e-bost ar wahân ar gyfer pob adroddiad, a nodwch o dan sylwadau "Adroddiad Treth Gyngor/Ardrethu Annomestig – Gwybodaeth ychwanegol wedi'i hanfon [dyddiad]" Bydd hyn yn ein galluogi i gysylltu'r wybodaeth yn gyflym ac osgoi gorfod gofyn am iddi gael ei hanfon atom eto</p>
Enw'r meddiannydd	<p>Dylech gynnwys y meddiannydd ar gyfer unrhyw eiddo newydd sy'n cael ei ffurfio o ganlyniad i raniad neu gyfuniad. Os nad oes meddiannydd yn bresennol, rhowch enw perchennog.</p> <p>Bydd hyn yn ein galluogi i gysylltu â meddiannydd presennol yr eiddo pe bai angen i ni gynnal archwiliad neu gael gwybodaeth rhentu. Rydym yn gwybod bod gohebiaeth yn fwy tebygol o gael ei hagog pan gaiff ei hanfon at berson penodol.</p>
Cyfeiriad Bilio	<p>Os yw'r cyfeiriad bilio yn wahanol i gyfeiriad yr eiddo.</p> <p>Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu anfon ein Hysbysiad o Newid at y parti cywir.</p>
Rhif ffôn cyswllt Cyfeiriad e-bost cyswllt	<p>Mae hyn yn ein helpu i gysylltu â'r meddiannydd yn gyflym er mwyn trefnu archwiliad neu i gadarnhau manylion eiddo.</p> <p>Gellir ychwanegu cysylltiadau a chyfeiriadau e-bost eraill at y golofn sylwadau, e.e. cyfeiriad y wefan</p>
Cyfeirnod grid OS	<p>Dim ond pan fydd lleoli'r eiddo yn anodd, yn enwedig pan fo'r eiddo mewn ardal wledig, y mae angen hyn.</p>

Gwiriwch gywirdeb a pherthnasedd yr wybodaeth a anfonwch atom gan y byddwn yn dibynnu arni. Byddwn hefyd yn cymryd yn ganiataol eich bod wedi anfon yr holl wybodaeth berthnasol sydd gennych atom. Diolch am weithio gyda ni.

Arweiniad ar Gyflwyno

Gwybodaeth Ategol Ychwanegol

Anfonwch unrhyw wybodaeth ategol ychwanegol, er enghraifft adroddiad yr arolygydd, lluniau, nodiadau a chynlluniau pellach ac ati at barsubmissionstandards@voa.gov.uk cyn pen 24 awr ar ôl i'r adroddiad cael ei anfon. Peidiwch ag anfon unrhyw wybodaeth ychwanegol cyn i adroddiad cael ei gyflwyno.

- Gofynnwn i chi anfon e-bost ar wahân atom ar gyfer pob adroddiad – mae hyn yn ei gwneud yn gliriach pa dystiolaeth sydd ar gyfer pa adroddiad.
- Gellir dod ag adroddiadau a gwybodaeth ychwanegol i ben yn gyflym os byddwch yn nodi yn y llinell bwnc - Treth Gyngor/gwybodaeth ychwanegol/rhif adroddiad/cyfeiriad llawn a chod post neu Ardrethu Annomestig/gwybodaeth ychwanegol/rhif adroddiad/cyfeiriad llawn a chod post.
- Maint y ffeil fwyaf a allwn ei dderbyn yw 25MB.

Iaith

Ar gyfer Awdurdodau yng Nghymru:

Os yw'n hysbys, ychwanegwch at eich sylwadau os byddai'n well gan y trethdalwr neu dalwr y dreth gyngor i ni gysylltu â nhw yn Gymraeg fel y brif iaith.

Diweddariad Mân i Adroddiad (Dyddiadau dod i rym, cyfeirnodau Awdurdod Bilio a manylion Meddianwyr yn unig)

Os yw'r adroddiad gwreiddiol yn dal heb ei wneud, gallwch ofyn i ni gywiro mân newidiadau megis gwallau teipio yn y cyfeiriad neu newidiadau cod post trwy anfon e-bost at barsubmissionstandards@voa.gov.uk. Bydd angen Adroddiad Awdurdod Bilio newydd os yw'r adroddiad gwreiddiol wedi'i brosesu.

Mae'n ddrwg gennym ond ni allwn dderbyn diweddariad mân i adroddiad ar gyfer eiddo nad oes ganddo Fand Treth Gyngor byw na Gwerth Trethiannol.

Achosion ffiniol

Anfonwch un adroddiad yn erbyn y cofnod byw yn y rhestr berthnasol pan fydd eiddo yn symud:

- O Ardrethu Annomestig i Dreth Cyngor, neu
- O Dreth Cyngor i Ardrethu Annomestig, neu
- Mae newid yng nghydbwysedd cyfansawdd

Gweler hefyd y cynorthwyr yn atodiad 3(Ardrethu Annomestig) ac atodiad 4(Treth Cyngor). Rydym hefyd yn rhoi enghreifftiau o sylwadau da ar gyfer pob cod rheswm.

Tŷ Amlbreswyliaeth (HMO) a llety myfyrwyr

Anfonwch un adroddiad wrth roi gwybod i ni am HMO neu lety myfyrwyr newydd. Anfonwch unrhyw wybodaeth ategol gan gynnwys:

Tŷ Amlbreswyliaeth (HMO)

- Enwau meddianwyr
- Llety - a oes gan bob ystafell ei hystafell ymolchi ei hun, a oes gan bob ystafell ei chegin fach ei hun a beth mae hyn yn ei gynnwys?
- Cyfleusterau cymunedol
- Cytundebau tenantiaeth - am ba hyd y maent?

Llety Myfyrwyr

- Nodwch fanylion pwy yw'r prif feddiannydd a pha gytundebau rhentu sydd gan y myfyriwr – bydd hyn yn ein helpu i benderfynu a oes angen i ni bennu bandiau ar wahân, fel un, neu mewn clystyrau.

Byddwn yn cysylltu â chi i gadarnhau'r nifer o asesiadau, cyfeiriadau a chyfeirnodau Awdurdod Bilio.

Rheswm dros geisiadau i ailgyflwyno

Os na allwn weithredu ar sail yr wybodaeth a roddir gydag adroddiad, byddwn yn egluro pam. Yn ogystal â'r codau dim gweithredu safonol, byddwn yn darparu'r codau ychwanegol canlynol:

- **Ardrethu Annomestig - cod '0'** - ailgyflwynwch -nid yw'n bodloni safonau cyflwyno- byddwn hefyd yn rhoi rheswm mewn cod er mwyn rhoi rhagor o fanylion pam nad yw wedi llwyddo i fynd drwyddo
- **Treth Gyngor - cod CN09** - ailgyflwynwch -nid yw'n bodloni safonau cyflwyno- byddwn hefyd yn rhoi rheswm mewn cod er mwyn rhoi rhagor o fanylion pam nad yw wedi llwyddo i fynd drwyddo

Gweler Atodiad 5 – Treth Gyngor ac Ardrethu Annomestig ar gyfer rhestr o resymau mewn cod ar gyfer cais i ailgyflwyno.

Cysylltiadau allweddol

Canolfan Gwasanaeth i Gwsmeriaid

Os hoffech drafod penderfyniad neu ailgyflwyniad, anfonwch e-bost at barsubmissionstandards@voa.gov.uk.

Dylid ond defnyddio'r mewnlwch BARSS ar gyfer ymholiadau ynghylch adroddiadau sydd heb eu gweithredu o dan un o'r codau yn Atodiad 5, ac i gyflwyno gwybodaeth ychwanegol.

Ar gyfer pob ymholiad arall, gofynnwn i chi ddefnyddio baenquiries@voa.gov.uk. Mae'r e-bost hwn at eich defnydd chi yn unig, rydym yn gofyn i chi beidio â rhannu y tu allan i'ch Awdurdod.

Cyflwyno adroddiadau

Treth Gyngor

Y ffordd orau o gyflwyno'ch adroddiadau Treth Gyngor i Asiantaeth y Swyddfa Brisio yw drwy ddefnyddio gwasanaeth cyflwyno adroddiadau'r Awdurdodau Bilio. Mae nifer o'n partneriaid o'r Awdurdodau Bilio eisoes wedi canfod bod defnyddio'r gwasanaeth yn golygu bod modd iddynt anfon adroddiadau i Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn hawdd ac yn gyson.

Mae'n gyflym ac yn hawdd ei ddefnyddio, ac mae'n cydweddu â'r rhan fwyaf o feddalwedd bresennol yr Awdurdodau Bilio. Os hoffech wybod rhagor am y gwasanaeth hwn, e-bostiwch: laengagement@voa.gov.uk.

Rhagor o wybodaeth

Os hoffech drafod y canllaw hwn mewn mwy o fanylder, cysylltwch â'r Tîm Ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol ar laengagement@voa.gov.uk.

Ceir gwybodaeth gyffredinol am Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar www.voa.gov.uk

Atodiadau

Atodiad 1 – Rheswm, mewn cod, dros yr adroddiad o ran Treth Gyngor

Cod	Rheswm dros yr Adroddiad
CR01	Wedi'i ddymchwel
CR02	Newid o ddefnydd domestig – dileu oddi ar y Rhestr Treth Gyngor
CR03	Newydd
CR04	Newid i ddefnydd domestig – cynnwys ar y Rhestr Treth Gyngor
CR05	Ailgyfuniad (rhaniadau a chyfuniadau) Sylwer – defnyddiwch CR03 pan nad yw meddalwedd yr Awdurdodau Bilio'n caniatáu i'r cod hwn gael ei ddefnyddio
CR06	Annedd gymysg nad yw wedi'i chwmpasu gan unrhyw god arall
CR07	Dymchwel rhan – gostyngiad posibl yn y band
CR09	Newid i'r cyfeirnod neu'r dyddiad dod i rym yn unig
CR10	Cynnydd posibl o ran newidiadau strwythurol
CR12	Newid cyfeiriad
CR14	Newid bach i gyfeiriad

Atodiad 2 – Rheswm, mewn cod, dros yr Adroddiad o ran Ardrethu Annomestig

Cod	Rheswm dros yr Adroddiad
01	Newydd
02	Newydd (domestig yn flaenorol)
03	Newydd (wedi'i eithrio yn flaenorol)
04	Newydd (arall)
05	Wedi'i ddileu (wedi'i ddymchwel)
06	Wedi'i ddileu (wedi peidio â bod yn drethiannol)
07	Wedi'i ddileu (wedi'i eithrio)
08	Wedi'i ddileu (arall)
09	Gwelliannau/Addasiadau
10	Ailgyfansoddi
11	Rheswm arall
12	Newid Cyfeiriad/Cyfeirnod yn unig

Atodiad 3 – Gofynion o ran Ardrethu Annomestig ac Enghreifftiau ohono

Cod Rheswm	Disgrifiad y Cod Rheswm	Gofyniad am God	Enghraifft Dda o Sylwadau
01	Newydd – Yn gwbl newydd i'r Rhestr Trethu	<p>Cyfeirnod Awdurdod Bilio i'w ddefnyddio Cyfeiriad Post Llawn Disgrifiad - e.e. swyddfa, tafarn, warws dosbarthu Dyddiad Dod i Rym (ni ddylai'r dyddiad fod yn y dyfodol) Rheswm, mewn cod, dros yr adroddiad Enw Meddiannydd a Chyfeiriad Bilio Os ar gael - Rhif ffôn cyswllt a/neu gyfeiriad e-bost Cyfeirnod Porth Cynllunio neu nodwch reswm dros yr hepgoriad Cyfeirnod Grid OS (lle byddai'n anodd dod o hyd i'r eiddo) Sylwadau - manylion yr eiddo newydd, cyfeirnod a gwybodaeth berthnasol arall gan gynnwys ffotograffau/prydles os ydynt ar gael.</p> <p>Ar gyfer y math hwn o adroddiad nodwch a oes Hysbysiad Cwblhau wedi'i gyflwyno.</p> <p>Sicrhewch nad yw hwn yn achos o raniad oddi wrth asesiad sy'n bodoli eisoes – os felly, defnyddiwch god 10</p>	<p>Cyfeirnod Talu (PRN) 090512544558 Meddygfa newydd, yn weithredol o 1/6/17 Cyf cynllunio X1222345 NEU dim cynllun-PPNA – gweler codau ac enghreifftiau eraill ar dudalen 4 Medd Mr Bloggs Ffôn 01254 234567 Perch Mr Lee Ffôn 0112 255588 CN wedi'i roi</p>
02	Newydd - Domestig yn Flaenorol	<p>Cyfeirnod Awdurdod Bilio i'w ddefnyddio Cyfeiriad Post Llawn Disgrifiad e.e. swyddfa, tafarn, llety hunanddarpar Dyddiad Dod i Rym (ni ddylai'r dyddiad fod yn y dyfodol) Rheswm, mewn cod, dros yr adroddiad Enw Meddiannydd a Chyfeiriad Bilio Os ar gael - Rhif ffôn cyswllt a/neu gyfeiriad e-bost Cyfeirnod Porth Cynllunio neu nodwch reswm dros yr hepgoriad Sylwadau – Cyfeirnod presennol yr eiddo o ran Treth Cyngor, a manylion y cyfeiriad domestig a/neu'r rhif adroddiad cyfatebol, cyfeiriad a chyfeirnod newydd o ran Ardrethu Annomestig gydag unrhyw fanylion cyswllt. Cyfeiriad newydd os yw wedi newid ers y rhestr flaenorol.</p>	<p>Cyfeirnod Talu (PRN) 090512544558 Llety gwyliau newydd, yn weithredol o 1/6/17 Cyf cynllunio X1222345 NEU dim cynllun-BWPP – gweler codau ac enghreifftiau eraill ar dudalen 4. Medd Mr Bloggs Ffôn 01254 234567 Perch Mr Lee Ffôn 0112 255588</p>

Cod Rheswm	Disgrifiad y Cod Rheswm	Gofyniad am God	Enghraifft Dda o Sylwadau
03	Newydd (wedi'i eithrio yn flaenorol)	<p>Cyfeirnod Awdurdod Bilio i'w ddefnyddio Cyfeiriad Post Llawn Disgrifiad - e.e. swyddfa, tafarn, warws dosbarthu Dyddiad Dod i Rym (ni ddylai'r dyddiad fod yn y dyfodol) Rheswm, mewn cod, dros yr adroddiad Enw Meddiannydd a Chyfeiriad Bilio Os ar gael - Rhif ffôn cyswllt a/neu gyfeiriad e-bost Cyfeirnod Porth Cynllunio neu nodwch reswm dros yr hepgoriad Cyfeirnod Grid OS (lle byddai'n anodd dod o hyd i'r eiddo) Sylwadau - manylion o'r defnydd blaenorol a'r defnydd newydd, cyfeirnod a gwybodaeth berthnasol arall gan gynnwys ffotograffau/prydles os ydynt ar gael.</p>	<p>Cyfeirnod Talu (PRN) 090512544558 Pam y mae hyn yn newydd i'r Rhestr Trethu e.e. hen ysgubor amaethyddol a ddefnyddir bellach fel gweithdy yn weithredol o 1/6/17 Cyf cynllunio X1222345 NEU dim cynllun-PD – gweler codau ac enghreifftiau eraill ar dudalen 4. Medd Mr Bloggs Ffôn 01254 234567 Perch Mr Lee Ffôn 0112 255588</p>
04	Newydd (arall)	<p>Cyfeirnod Awdurdod Bilio i'w ddefnyddio Cyfeiriad Post Llawn Disgrifiad - e.e. swyddfa, tafarn, warws dosbarthu Dyddiad Dod i Rym (ni ddylai'r dyddiad fod yn y dyfodol) Rheswm, mewn cod, dros yr adroddiad Enw Meddiannydd a Chyfeiriad Bilio Os ar gael - Rhif ffôn cyswllt a/neu gyfeiriad e-bost Cyfeirnod Porth Cynllunio neu nodwch reswm dros yr hepgoriad Cyfeirnod Grid OS (lle byddai'n anodd dod o hyd i'r eiddo) Sylwadau - manylion yr eiddo newydd, cyfeirnod a gwybodaeth berthnasol arall gan gynnwys ffotograffau/prydles os ydynt ar gael. Cyfeiriad newydd os yw wedi newid ers y rhestr flaenorol.</p>	<p>Cyfeirnod Talu (PRN) 090512544558 Pam y mae hyn yn newydd i'r Rhestr Trethu, yn weithredol o 1/6/17 Cyf cynllunio X1222345 NEU dim cynllun-PD – gweler codau ac enghreifftiau eraill ar dudalen 4. Medd Mr Bloggs Ffôn 01254 234567 Perch Mr Lee Ffôn 0112 255588</p>

Cod Rheswm	Disgrifiad y Cod Rheswm	Gofyniad am God	Enghraifft Dda o Sylwadau
05	Wedi'i ddileu (wedi'i ddymchwel)	<p>Cyfeirnod Awdurdod Bilio Cyfeiriad Post Llawn Disgrifiad - e.e. swyddfa, tafarn, warws dosbarthu Dyddiad Dod i Rym (ni ddylai'r dyddiad fod yn y dyfodol) Rheswm, mewn cod, dros yr adroddiad Perchennog/Meddiannydd a Chyfeiriad Bilio Os ar gael - Rhif ffôn cyswllt a/neu gyfeiriad e-bost</p> <p>Sylwadau - gan gynnwys manylion y perchennog a'r cyfeiriad ar gyfer cyflwyno'r hysbysiad i ddileu. Ni all hyn fod cyfeiriad yr eiddo dan sylw.</p> <p>Sylwer: Os cyflwynwch adroddiad ar gyfer dymchweliad, byddwn yn tynnu'r eiddo oddi ar y Rhestr heb ymgymryd ag archwiliad na dilysiad o'r safle.</p>	<p>Eiddo wedi'i ddymchwel ar 1/6/17</p> <p>Perch Mr Rhywun Arall, 15 Unrhyw Stryd, Unrhyw Dref, M13 D34, Ffôn 01254 222555, e-bost</p>
06	Wedi peidio â bod yn drethiannol (e.e. yn ddomestig erbyn hyn)	<p>Cyfeirnod Awdurdod Bilio Cyfeiriad Post Llawn Disgrifiad e.e. swyddfa, tafarn, llety hunanddarpar Dyddiad Dod i Rym (ni ddylai'r dyddiad fod yn y dyfodol) Rheswm, mewn cod, dros yr adroddiad Enw Meddiannydd a Chyfeiriad Bilio Os ar gael - Rhif ffôn cyswllt a/neu gyfeiriad e-bost Cyfeirnod Porth Cynllunio neu nodwch reswm dros yr hepgoriad Sylwadau – Manylion pam nad yw'n drethiannol mwyach. Cyfeirnod presennol eiddo neu gyfeirnod newydd eiddo o ran Treth Gyngor a manylion y cyfeiriad domestig</p>	<p>Eiddo domestig erbyn hyn, yn weithredol o 1/6/17, Perch Mr Rhywun Arall, 15 Unrhyw Stryd, Unrhyw Dref, M13 D34, Ffôn 01254 222555, e-bost</p> <p>Cyf cynllunio X1222345 NEU dim cynllun-PD – gweler codau ac enghreifftiau eraill ar dudalen 4</p>
07	Dileu - Wedi'i Eithrio	<p>Cyfeirnod Awdurdod Bilio Cyfeiriad Post Llawn Disgrifiad - e.e. swyddfa, gweithdy, siop Dyddiad Dod i Rym (ni ddylai'r dyddiad fod yn y dyfodol) Rheswm, mewn cod, dros yr adroddiad Enw Meddiannydd a Chyfeiriad Bilio Os ar gael - Rhif ffôn cyswllt a/neu gyfeiriad e-bost Cyfeirnod Porth Cynllunio neu nodwch reswm dros yr hepgoriad Sylwadau – dylech gynnwys manylion ynghylch defnydd presennol, pam y mae wedi'i eithrio ac unrhyw wybodaeth gyswllt</p>	<p>Ers 1/6/17, mae'r eiddo'n cael ei ddefnyddio fel eglwys/man addoli cyhoeddus</p> <p>Cysylltwch â Mr Rhywun Arall, 15 Unrhyw Stryd, Unrhyw Dref, M13 D34, Ffôn 01254 222555, e-bost</p> <p>Cyf cynllunio X1222345 NEU dim cynllun-PD – gweler codau ac enghreifftiau eraill ar dudalen 4</p> <p>Gweler Rating Manual section 6: valuation practice - Guidance - GOV.UK i gael rhagor o help ynghylch eithriadau.</p> <p>Dylech gynnwys dystysgrif eithrio crefyddol lle bo'n briodol</p>

Cod Rheswm	Disgrifiad y Cod Rheswm	Gofyniad am God	Enghraifft Dda o Sylwadau
08	Wedi'i ddileu - Arall (nid yw'n dod o dan unrhyw god arall)	<p>Cyfeirnod Awdurdod Bilio Cyfeiriad Post Llawn Disgrifiad - e.e. swyddfa, gweithdy, siop Dyddiad Dod i Rym (ni ddylai'r dyddiad fod yn y dyfodol) Rheswm, mewn cod, dros yr adroddiad Enw Meddiannydd a Chyfeiriad Bilio Os ar gael - Rhif ffôn cyswllt a/neu gyfeiriad e-bost Cyfeirnod Porth Cynllunio neu nodwch reswm dros yr hepgoriad Sylwadau - rhesymau manwl pam y dylai gael ei ddileu</p> <p>Rhowch wybodaeth berthnasol, megis:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ffotograffau • Rhaglen/ cynllun o waith ailadeiladu/ ailddatblygu • Costau 	<p>Rhesymau manwl pam y dylai gael ei ddileu, yn weithredol o 1/6/17.</p> <p>Cysylltwch perch Mr Rhywun Arall, 15 Unrhyw Stryd, Unrhyw Dref, M13 D34, Ffôn 01254 222555, e-bost</p> <p>Os ydych yn ansicr a ydynt yn bodloni'r meini prawf, neu os nad oes gennych ddigon o dystiolaeth, cyfeiriwch nhw at https://www.gov.uk/guidance/how-to-check-your-rateable-value-is-correct</p>
09	Gwelliannau/ Addasiadau	<p>Cyfeirnod Awdurdod Bilio Cyfeiriad Post Llawn Disgrifiad Dyddiad Dod i Rym (ni ddylai'r dyddiad fod yn y dyfodol) Rheswm, mewn cod, dros yr adroddiad Enw Meddiannydd a Chyfeiriad Bilio Os ar gael - Rhif ffôn cyswllt a/neu gyfeiriad e-bost Cyfeirnod Porth Cynllunio neu nodwch reswm dros yr hepgoriad Sylwadau – rhowch fanylion yr hyn sydd wedi'i addasu neu ei newid</p>	<p>Estyniad i'r cefn sy'n rhoi mwy o le swyddfa/6 lle parcio ychwanegol, yn weithredol o 1/6/17</p> <p>Cyf cynllunio X1222345 NEU dim cynllun-BWPP – gweler codau ac enghreifftiau eraill ar dudalen 4</p> <p>Medd Mr Bloggs Ffôn 01254 234567, e-bost</p> <p>Perch Mr Lee Ffôn 0112 255588, e-bost</p>

Cod Rheswm	Disgrifiad y Cod Rheswm	Gofyniad am God	Enghraifft Dda o Sylwadau
10	Ailgyfansoddi - Rhannu/Uno	<p>Cyfeirnod Awdurdod Bilio Cyfeiriad Post Llawn Disgrifiad Dyddiad Dod i Rym (ni ddylai'r dyddiad fod yn y dyfodol) Rheswm, mewn cod, dros yr adroddiad Enw Meddiannydd a Chyfeiriad Bilio Os ar gael - Rhif(au) ffôn cyswllt a/neu gyfeiriad(au) e-bost Cyfeirnod Porth Cynllunio neu nodwch reswm dros yr hepgoriad Sylwadau – cyfuniad neu raniad o asedion. Faint, e.e. 1 yn 2, 2 yn 1. Dylech gynnwys cyfeiriadau a chyfeirnodau newydd ar gyfer yr asesiadau "newydd"</p>	<p>1 yn 3 – Uned 1 – Swyddfa – M&S Supplies, Cyfeirnod Talu (PRN) 000122222 – Mr Bloggs 01254 2222335 Uned 2 – Gweithdy – The Door Company – Cyfeirnod Talu (PRN) 000122223 – Mr Lee 01254 5558844 Uned 3 – Gweithdy – Car Repairs Ltd – Cyfeirnod Talu (PRN)-000122224 – Mrs Jones 01254 22556888 Dyddiad dod i rym 1/6/17 Cyf cynllunio X1222345 NEU dim cynllun-PPNA – gweler codau ac enghreifftiau eraill ar dudalen 4. Gweler Rating Manual section 3: valuation principles – Guidance – GOV.UK am enghreifftiau</p>
11	Rheswm arall	<p>Cyfeirnod Awdurdod Bilio Cyfeiriad Post Llawn Disgrifiad Dyddiad Dod i Rym (ni ddylai'r dyddiad fod yn y dyfodol) Rheswm, mewn cod, dros yr adroddiad Enw Meddiannydd a Chyfeiriad Bilio Os ar gael - Rhif ffôn cyswllt a/neu gyfeiriad e-bost Cyfeirnod Porth Cynllunio neu nodwch reswm dros yr hepgoriad Sylwadau - yn manylu'r newidiadau/addasiadau Os yw'n newydd, yn addasiad neu'n ailgyfuniad, dylech ystyried defnyddio cod arall</p>	<p>Cyfeirnod Awdurdod Bilio newydd, os yw'n ofynnol Dyddiad dod i rym 1/6/17 Cysylltwch â Mr Rhywun Arall, 15 Unrhyw Stryd, Unrhyw Dref, M13 D34, Ffôn 01254 222555, e-bost</p>

Cod Rheswm	Disgrifiad y Cod Rheswm	Gofyniad am God	Enghraifft Dda o Sylwadau
12	Newid Cyfeiriad/ Cyfeirnod yn unig	<p>Cyfeirnod Awdurdod Bilio Cyfeiriad Post Llawn Disgrifiad Dyddiad Dod i Rym (ni ddylai'r dyddiad fod yn y dyfodol) Rheswm, mewn cod, dros yr adroddiad Enw Meddiannydd a Chyfeiriad Bilio Os ar gael - Rhif ffôn cyswllt a/neu gyfeiriad e-bost Cyfeirnod Porth Cynllunio neu nodwch reswm dros yr hepgoriad Sylwadau – rhoi manylion yr hyn rydych yn dymuno ei gywiro neu ei newid. Dylai newidiadau i gyfeiriad gynnwys y cyfeiriad post newydd llawn.</p>	<p>Newidiwch gyfeirnod yr eiddo i x1223665996 A/neu newidiwch gyfeiriad yr eiddo i Uned 1, 10 Unrhyw Stryd, Unrhyw Dref, M17 6EX, yn weithredol o 1/06/17 Neu cywirwch y cod post i OL15 6RU Dyddiad dod i rym 1/6/17 Defnyddiwch adroddiad newid ar gyfer newidiadau i gyfeiriad neu gyfeirnod yn unig. Dylid nodi newidiadau i ddefnydd eiddo fel Newidiadau Cod 09. Awgrym – os oes gennych 20 neu fwy o gyfeirnodau y mae angen eu newid, nid oes angen i chi gyflwyno adroddiadau unigol. Gallwch anfon taenlen at baenquiries@voa.gov.uk</p>

Atodiad 4 – Gofynion Treth Gyngor ac Enghreifftiau

Cod Rheswm	Disgrifiad y Cod Rheswm	Gofyniad am God	Enghraifft Dda o Sylwadau
CR01	Wedi'i ddymchwel neu'n Amhreswyladwy (wedi'i ddileu oddi ar y Rhestr Treth Gyngor)	<p>Cyfeirnod Awdurdod Bilio Cyfeiriad Post Llawn Dyddiad y newid (ni ddylai'r dyddiad fod yn y dyfodol) Rheswm, mewn cod, dros yr adroddiad Band Treth Gyngor presennol ar gyfer asesiadau sy'n bodoli eisoes Enw'r perchennog (yn hytrach na meddiannydd) a Chyfeiriad Bilio os yw'n wahanol Os ar gael - Rhif ffôn cyswllt a/neu gyfeiriad e-bost Sylwadau – Dylech nodi a yw'r eiddo wedi'i ddymchwel neu'n adfeiliedig – bydd hyn yn ein galluogi i nodi'n gyflym y camau y mae angen eu cymryd ac at bwy y dylai (ein Canolfan Gwasanaeth i Gwsmeriaid) ddyrannu'r gwaith.</p> <p>Sylwer: Os cyflwynwch adroddiad ar gyfer dymchweliad, byddwn yn tynnu'r eiddo oddi ar y Rhestr heb ymgymryd ag archwiliad na dilysiad o'r safle.</p>	<p>Eiddo wedi'i ddymchwel ar 1/6/17</p> <p>Perch Mr Rhywun Arall, 15 Unrhyw Stryd, Unrhyw Dref, M13 D34, Ffôn 01254 222555, e-bost</p> <p>Os ydych yn ansicr a yw'r eiddo'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cael ei ddileu, gofynnwch i'r trethdalwr gysylltu â ni er mwyn trafod gwneud cynnig/her o ran Treth Gyngor dros y ffôn ar 03000 501501, mae gan ein tîm trin galwadau wybodaeth wych am broblemau atgyweirio.</p> <p>Ceir rhagor o wybodaeth yn https://www.gov.uk/government/publications/council-tax-challenge-form</p>
CR02	Newid o Ddefnydd Domestig (dileu oddi ar y Rhestr Treth Gyngor)	<p>Cyfeirnod Awdurdod Bilio Cyfeiriad Post Llawn Dyddiad y newid (ni ddylai'r dyddiad fod yn y dyfodol) Rheswm, mewn cod, dros yr adroddiad Band Treth Gyngor presennol ar gyfer asesiadau sy'n bodoli eisoes Enw perchennog neu feddiannydd a'r Cyfeiriad Bilio os yw'n wahanol Os ar gael - Rhif ffôn cyswllt a/neu gyfeiriad e-bost Sylwadau – rhowch fanylion yr hyn sydd wedi digwydd. Cyfeirnod presennol yr eiddo o ran Ardrethu Annomestig, a manylion y cyfeiriad a/neu'r rhif adroddiad cyfatebol o ran Ardrethu Annomestig, y cyfeiriad a'r cyfeirnod newydd gydag unrhyw fanylion cyswllt. Cyfeiriad newydd os yw wedi newid ers y rhestr flaenorol.</p>	<p>Tŷ wedi newid yn llety gwyliau ar 1/6/17</p> <p>Cyfeirnod Talu (PRN) 090512544558</p> <p>Perch Mr Rhywun Arall, 15 Unrhyw Stryd, Unrhyw Dref, M13 D34, Ffôn 01254 222555, e-bost a.n.other@ hotmail.com</p>

Cod Rheswm	Disgrifiad y Cod Rheswm	Gofyniad am God	Enghraifft Dda o Sylwadau
CR03	<p>Newydd (yn gwbl newydd i'r Rhestr Treth Gyngor, ddim i'w ddefnyddio os yw wedi'i ffurfio o ran o annedd arall sy'n bodoli eisoes)</p>	<p>Cyfeirnod Awdurdod Bilio Cyfeiriad Post Llawn Dyddiad y newid (ni ddylai'r dyddiad fod yn y dyfodol) Rheswm, mewn cod, dros yr adroddiad Enw perchennog neu feddiannydd a'r Cyfeiriad Bilio os yw'n wahanol Os ar gael - Rhif ffôn cyswllt a/neu gyfeiriad e-bost Cyfeirnod Porth Cynllunio neu reswm dros yr hepgoriad</p> <p>Sylwadau:</p> <p>Ar gyfer ystâd newydd/presennol os yw ar gael - adeiladwr, a/neu enw ystâd a/neu rif llain</p> <p>Llety myfyrwyr - Os yw'r wybodaeth hon gennych, rhowch fanylion pwy yw'r prif feddiannydd a pha gytundebau rhentu sydd gan y myfyriwr – bydd hyn yn ein helpu i benderfynu a oes angen i ni bennu bandiau ar wahân, fel un, neu mewn clystyrau.</p> <p>Ar gyfer y math hwn o adroddiad nodwch a oes Hysbysiad Cwblhau wedi'i gyflwyno Ar gyfer tai amlbreswyliaeth a Rhandai, gweler y gofynion wedi'u rhestru o dan god CR05</p>	<p>Cyfeirnod Talu (PRN) 090512544558 Tŷ newydd wedi'i feddiannu 1/6/17 Cyfeiriad: 1 Unrhyw Stryd, Unrhyw Dref, M17 3LZ Cyf cynllunio X1222345 NEU dim cynllun-PD – gweler codau ac enghreifftiau eraill ar dudalen 4 Medd Mr Bloggs, Ffôn 01254 234567, e-bost Mae angen cyfeirnod cynllunio ar gyfer eiddo 'unigryw' newydd, datblygiadau mewnlenwi a'r swp cyntaf ar ystâd newydd. CN wedi'i roi Awgrym Ar gyfer yr ail swp o adroddiadau ar ystâd newydd (h.y. lle rydych eisoes wedi darparu cynlluniau) mae'n ddigonol rhoi "(Enw'r datblygwr ac enw'r datblygiad)" o dan sylwadau. Os nad oes angen cynlluniau, nodwch y rheswm pam o dan sylwadau e.e. Dim cynllun – carafán</p>
CR04	<p>Newid i ddefnydd domestig (e.e. Ardrethu Annomestig neu wedi'i eithrio yn flaenorol)</p>	<p>Cyfeirnod Awdurdod Bilio Cyfeiriad Post Llawn Dyddiad y newid (ni ddylai'r dyddiad fod yn y dyfodol) Rheswm, mewn cod, dros yr adroddiad Cyfeirnod presennol o ran Ardrethu Annomestig, cyfeiriad a Gwerth Trethiannol ar gyfer asesiadau sy'n bodoli eisoes Enw perchennog neu feddiannydd a'r Cyfeiriad Bilio os yw'n wahanol Os ar gael - Rhif ffôn cyswllt a/neu gyfeiriad e-bost Cyfeirnod Porth Cynllunio neu reswm dros yr hepgoriad. Cyfeiriad newydd os yw wedi newid ers y rhestr flaenorol.</p>	<p>Cyfeirnod Talu (PRN) 090512544558 Llety gwyliau wedi'i drosi at ddefnydd domestig, yn weithredol o 1/6/17 Cyfeiriad: 1 Unrhyw Stryd, Unrhyw Dref, M17 3LZ Cyf cynllunio X1222345 NEU dim cynllun-PD – gweler codau ac enghreifftiau eraill ar dudalen 4. Medd Mr Bloggs, Ffôn 01254 234567, e-bost – abloggs@hotmail.co.uk</p>

Cod Rheswm	Disgrifiad y Cod Rheswm	Gofyniad am God	Enghraifft Dda o Sylwadau
CR05	Eiddo wedi'i ailgyfuno (e.e. rhannu tŷ yn fflatiau neu droi fflatiau ynn annedd unigol, neu ychwanegu rhandy)	<p>Cyfeirnod Awdurdod Bilio Cyfeiriad Post Llawn Dyddiad y newid (ni ddylai'r dyddiad fod yn y dyfodol) Rheswm, mewn cod, dros yr adroddiad Band Treth Gyngor presennol ar gyfer asesiadau sy'n bodoli eisoes Enw perchennog/meddiannydd a Chyfeiriad Bilio os yw'n wahanol Os ar gael - Rhif ffôn cyswllt a/neu gyfeiriad e-bost Cyfeirnod Porth Cynllunio neu reswm dros yr hepgoriad Sylwadau: dylech gynnwys Cyfeiriad Post Llawn, cyfeirnod Awdurdod Bilio a manylion am yr atodiad e.e. wedi' adeiladu ar dir neu wedi'i drawsnewid o ran o'r prif dŷ.</p> <p>Ar gyfer rhandai, nodwch unrhyw gyfyngiadau cynllunio. Mae manylion o bwy sy'n meddiannu yn hanfodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Aelod o'r teulu? • Wedi'i osod ar rent i denant? <p>Ar gyfer Tai Ambreswyliaeth byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddarparu'r manylion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Enwau meddianwyr • Llety - a oes gan bob ystafell ei hystafell ymolchi ei hun, a oes gan bob ystafell ei chegin fach ei hun a beth mae hyn yn ei gynnwys? • Cyfleusterau cymunedol • Cytundebau tenantiaeth - am ba hyd y maent? <p>Os nad yw'ch meddalwedd yn caniatáu i chi ddefnyddio CR05 ar gyfer rhaniadau/cyfuniadau o ran Treth Gyngor defnyddiwch CR03. Ychwanegwch o dan sylwadau, "methu defnyddio CR05"</p>	<p>1 i mewn i 3 fflat:</p> <p>Fflat 1 yn 64 Unrhyw Stryd, Unrhyw Dref, M17 6ZR, Mr Bloggs – 01254 2222335 Cyfeirnod Talu (PRN) 000122222</p> <p>Fflat 2 yn 64 Unrhyw Stryd, Unrhyw Dref, M17 6ZR, Mr Lee – 01254 5558844 Cyfeirnod Talu (PRN) 000122223</p> <p>Fflat 3 yn 64 Unrhyw Stryd, Unrhyw Dref, M17 6Z, Mrs Jones – 01254 22556888 Cyfeirnod Talu (PRN) 000122224</p> <p>Dyddiad dod i rym 1/6/17</p> <p>Cyf cynllunio X1222345 NEU dim cynllun-PD – gweler codau ac enghreifftiau eraill ar dudalen 4.</p> <p>Gweler Council Tax: practice notes - Council Tax Manual - Guidance - GOV.UK am ragor o help. Council Tax: practice notes – Council Tax Manual – Guidance – GOV.UK for further help.</p>

Cod Rheswm	Disgrifiad y Cod Rheswm	Gofyniad am God	Enghraifft Dda o Sylwadau
CR06	<p>Annedd gymysg (pan fo elfen ddomestig ac annomestig)</p> <p>Dim ond i'w ddefnyddio pan nad oes cod arall yn gymwys</p>	<p>Cyfeirnod Awdurdod Bilio Cyfeiriad Post Llawn Dyddiad y newid (ni ddylai'r dyddiad fod yn y dyfodol) Rheswm, mewn cod, dros yr adroddiad Band Treth Gyngor presennol ar gyfer asesiadau sy'n bodoli eisoes Enw perchennog neu feddiannydd a'r Cyfeiriad Bilio os yw'n wahanol Os ar gael - Rhif ffôn cyswllt a/neu gyfeiriad e-bost Cyfeirnod Porth Cynllunio neu reswm dros yr hepgoriad Sylwadau: Cyfeirnod presennol yr eiddo o ran Ardrethu Annomestig, a manylion y cyfeiriad a/neu'r rhif adroddiad cyfatebol o ran Ardrethu Annomestig, gydag unrhyw fanylion cyswllt.</p>	<p>Cyfeirnod Talu (PRN) 090512544558</p> <p>Ystafelloedd uwchben siop wedi'u trosi'n fflat, yn weithredol o 1/6/17: 1A Unrhyw Stryd, Unrhyw Dref, M17 3LZ</p> <p>Cyf cynllunio X1222345 NEU dim cynllun-PD – gweler codau ac enghreifftiau eraill ar dudalen 4.</p> <p>Medd Mr Bloggs, Ffôn 01254 234567, e-bost</p>
CR07	<p>Dymchwel rhan (pan allwn ystyried gostyngiad mewn band e.e. cael gwared ar garej)</p>	<p>Cyfeirnod Awdurdod Bilio Cyfeiriad Post Llawn Dyddiad y newid (ni ddylai'r dyddiad fod yn y dyfodol) Rheswm, mewn cod, dros yr adroddiad Band Treth Gyngor presennol ar gyfer asesiadau sy'n bodoli eisoes Enw perchennog neu feddiannydd a'r Cyfeiriad Bilio os yw'n wahanol Os ar gael - Rhif ffôn cyswllt a/neu gyfeiriad e-bost Cyfeirnod Porth Cynllunio neu reswm dros yr hepgoriad Sylwadau: Nodwch fanylion yr hyn sydd wedi'i ddymchwel.</p> <p>Mae'r math hwn o adroddiad yn anarferol iawn gan fod dymchweliadau fel arfer yn rhan o waith adeiladu mwy o faint (e.e. adeiladu estyniad). Oherwydd hynny, mae'r cyfeirnod cynllunio yn bwysig.</p>	<p>Cyfeirnod Talu (PRN) 090512544558</p> <p>Garej ar ochr y tŷ wedi'i dymchwel</p> <p>Cyf cynllunio X1222345 NEU dim cynllun-NPAS – gweler codau ac enghreifftiau eraill ar dudalen 4</p> <p>Medd Mr Bloggs, Ffôn 01254 234567, e-bost</p>
CR08	(Ddim yn cael ei ddefnyddio)	Os caiff adroddiadau eu cyflwyno gyda'r cod hwn, cânt eu dychwelyd fel: Nid yw'n bodloni'r safonau cyflwyno – Cod H	

Cod Rheswm	Disgrifiad y Cod Rheswm	Gofyniad am God	Enghraifft Dda o Sylwadau
CR09	Newid Cyfeirnod neu Ddyddiad Dod i Rym yn unig	<p>Cyfeirnod Awdurdod Bilio Cyfeiriad Post Llawn Dyddiad y newid (ni ddylai'r dyddiad fod yn y dyfodol) Rheswm, mewn cod, dros yr adroddiad Band Treth Gyngor presennol ar gyfer asesiadau sy'n bodoli eisoes Enw perchennog neu feddiannydd a'r Cyfeiriad Bilio os yw'n wahanol Os ar gael - Rhif ffôn cyswllt a/neu gyfeiriad e-bost Sylwadau: Rhaid cynnwys cyfeirnod Awdurdod Bilio newydd neu ddyddiad dod i rym newydd</p> <p>Noder. Os oes angen newid dyddiad dod i rym ar adroddiad cynharach nad yw wedi'i weithredu eto, anfonwch e-bost at barsubmissionstandards@voa.gsi.gov.uk gan roi'r dyddiad dod i rym diwygiedig. Peidiwch ag anfon adroddiad dyblyg.</p>	<p>Newid cyfeirnod yr eiddo i x1223665996 A/neu dyddiad dod i rym i 1/6/17</p> <p>Awgrym – os oes gennych 20 neu fwy o gyfeirnodau y mae angen eu newid, nid oes angen i chi gyflwyno adroddiadau unigol. Gallwch anfon taenlen at baenquiries@voa.gov.uk</p>
CR10	<p>Gwelliannau/ Newidiadau (i'w hadolygu ar ôl y gwerthiant nesaf)</p> <p>Peidiwch â defnyddio'r cod hwn pan fo'r estyniad yn rhandy – defnyddiwch god CR05</p>	<p>Cyfeirnod Awdurdod Bilio Cyfeiriad Post Llawn Dyddiad y newid (ni ddylai'r dyddiad fod yn y dyfodol) Rheswm, mewn cod, dros yr adroddiad Band Treth Gyngor presennol ar gyfer asesiadau sy'n bodoli eisoes Enw perchennog neu feddiannydd a'r Cyfeiriad Bilio os yw'n wahanol Os ar gael - Rhif ffôn cyswllt a/neu gyfeiriad e-bost Cyfeirnod Porth Cynllunio neu reswm dros yr hepgoriad Sylwadau: Manylion y newidiadau sydd wedi'u gwneud</p>	<p>Estyniad i'r cefn i ddarparu cegin fwy ac ystafell haul, yn ogystal ag addasu atig er mwyn creu 4edd ystafell wely, yn weithredol o 1/6/17</p> <p>Cyf cynllunio X1222345 NEU dim cynllun-PD – gweler codau ac enghreifftiau eraill ar dudalen 4.</p> <p>Medd Mr Bloggs Ffôn 01254 234567, e-bost</p>
CR11	Newid Ffiniau – Dileu o'r BA hwn	Peidiwch ag anfon adroddiad gan ddefnyddio'r cod rheswm hwn. Cysylltwch â'ch Rheolwr Cysylltiadau ag Awdurdodau Lleol.	Mae Adran TG Asiantaeth y Swyddfa Brisio fel arfer yn delio â'r rhain mewn swp.

Cod Rheswm	Disgrifiad y Cod Rheswm	Gofyniad am God	Enghraifft Dda o Sylwadau
CR12	Newid Sylweddol i Gyfeiriad	<p>Cyfeirnod Awdurdod Bilio Cyfeiriad Post Llawn Dyddiad y newid (ni ddylai'r dyddiad fod yn y dyfodol) Rheswm, mewn cod, dros yr adroddiad Band Treth Gyngor presennol ar gyfer asesiadau sy'n bodoli eisoes Enw perchennog neu feddiannydd a'r Cyfeiriad Bilio os yw'n wahanol Os ar gael - Rhif ffôn cyswllt a/neu gyfeiriad e-bost Sylwadau: Rhaid cynnwys y cyfeiria newydd</p>	<p>Newid cyfeiriad yr eiddo i 10 Unrhyw Stryd, Unrhyw Dref, M17 6EX yn weithredol o 1af Mehefin17</p> <p>Dylech ond cyflwyno yn erbyn eiddo y mae band eisoes wedi'i bennu iddo.</p> <p>Ni fyddwn yn gofyn i chi ailgyflwyno os daw'r adroddiad i law fel CR14 (gweler Newid mawr i gyfeiriad) a'i fod yn bodloni'r meini prawf fel arall.</p> <p>Os oes angen diweddarau'r rhif cyfeirnod hefyd, nodwch yn y sylwadau a rhowch y rhif newydd</p>
CR13	Newid Ffiniau – Ychwanegu at y BA hwn	Peidiwch ag anfon adroddiad gan ddefnyddio'r cod rheswm hwn. Cysylltwch â'ch Rheolwr Cysylltiadau ag Awdurdodau Lleol.	Mae Adran TG Asiantaeth y Swyddfa Brisio fel arfer yn delio â'r rhain mewn swp.
CR14	Newid bach i gyfeiriad (ar gyfer gwallau amlwg neu newidiadau bach i god post neu ychwanegiadau bach at linell gyntaf y cyfeiriad)	<p>Cyfeirnod Awdurdod Bilio Cyfeiriad Post Llawn Dyddiad y newid (ni ddylai'r dyddiad fod yn y dyfodol) Rheswm, mewn cod, dros yr adroddiad Band Treth Gyngor presennol ar gyfer asesiadau sy'n bodoli eisoes Enw perchennog neu feddiannydd a'r Cyfeiriad Bilio os yw'n wahanol Os ar gael - Rhif ffôn cyswllt a/neu gyfeiriad e-bost Sylwadau: Rhaid cynnwys y cyfeiriad diwygiedig a/neu'r Cyfeirnod Awdurdod Bilio diwygiedig</p> <p>Noder. Os oes angen newid dyddiad dod i rym ar adroddiad cynharach nad yw wedi'i weithredu eto, anfonwch e-bost at barsubmissionstandards@voa.gsi.gov.uk gan roi'r dyddiad dod i rym diwygiedig. Peidiwch ag anfon adroddiad dyblyg.</p>	<p>Gallai enghreifftiau gynnwys:</p> <p>Gwallau argraffyddol amlwg (e.e. Rose Cottage) Newidiadau bach i'r cod post (i'r ddau ddiigid olaf)</p> <p>Ychwanegiadau at linell gyntaf y cyfeiriad pan ellir olrhain hanes yr eiddo (e.e. mae 14 Stryd Fawr yn troi'n Bwthyn y Rhosyn, 14 Stryd Fawr)</p> <p>Dylech ond cyflwyno yn erbyn eiddo y mae band eisoes wedi'i bennu iddo.</p> <p>Ni fyddwn yn gofyn i chi ailgyflwyno os daw'r adroddiad i law fel CR12 (gweler Newid mawr i gyfeiriad) a'i fod yn bodloni'r meini prawf fel arall.</p>

Atodiad 5 – Rheswm, mewn cod, dros yr Adroddiad o ran Treth Gyngor ac Ardrethu Annomestig

Cod	Rheswm dros y cais i ailgyflwyno
A	Dim cyfeirnod Awdurdod Bilio wedi'i ddarparu
B	Cyfeiriad yr eiddo yn anghyflawn
C	Dim Cod post
D	Dim Disgrifiad
E	Dim dyddiad newid na hysbysiad cwblhau
F	Dim gwybodaeth am raniad wedi'i darparu
G	Dim gwybodaeth am gyfuniad wedi'i darparu
H	Cod adrodd anghywir wedi'i ddefnyddio
I	Gwerth Trethiannol neu fand Treth Gyngor ar gyfer asesiadau presennol heb eu cynnwys
J	Dim rheswm wedi'i roi dros hepgor Cyfeirnod Cynllunio neu Gyfeirnod Porth Cynllunio
K	Digwyddiad heb ddigwydd neu bydd yn digwydd yn y dyfodol
L	Wedi'i gofnodi'n anghywir fel newydd yn hytrach nag achos o raniad oddi wrth asesiad
M	Dim gwybodaeth o ran meddiannu rhandy – nid yw'n nodi a yw'r rhandy wedi'i osod ar rent neu'n rhandy teuluol
N	Newid i'r cyfeiriad heb ei ddarparu – nid yw'r cyfeiriad presennol na'r sylwadau yn nodi beth yw'r cyfeiriad newydd
O	Tŷ Amlbreswyliaeth newydd. Gwybodaeth heb ei darparu ar gyfer Tŷ Amlbreswyliaeth
P	Aneglur ac annigonol heb unrhyw wybodaeth ffeithiol i ategu
Q	Sawl cais ar un adroddiad – os oes angen newidiadau ar ddiwrnodau gwahanol, bydd angen adroddiadau ar wahân arnom.

Atodiad 6 – Rhestr o gymeriadau cymeradwy ar gyfer adroddiadau ebar

Space	@	`
!	A	a
“	B	b
#	C	c
\$	D	d
%	E	e
&	F	f
‘	G	g
(H	h
)	I	i
*	J	j
+	K	k
,	L	l
-	M	m
.	N	n
/	O	o
0	P	p
1	Q	q
2	R	r
3	S	s
4	T	t
5	U	u
6	V	v
7	W	w
8	X	x
9	Y	y
:	Z	z
;	[{
<	\	
=]	}
>	^	~
?	—	